



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mr Jack Straw
Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Canolfan Oldway
36 Orchard Street
Abertawe
SA1 5LD

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

12 Medi 2011

Annwyl Mr Straw,

**Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas a hysbysiad bod yr
Adolygiad ar ben**

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm cais am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'. Rwy'n gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech a roddwyd i ymateb i'm cais. Mae'r ymatebion sydd wedi dod i law yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i bobl hŷn yng Nghymru. Os bydd y sefydliadau'n cymryd y camau y maen nhw wedi dweud y byddan nhw'n eu cymryd, dylid gweld gwelliant arwyddocaol ym mhrofiadau pobl hŷn yn yr ysbyty yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, gofynnais i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ymateb i Argymhelliad 5 ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, gan amlinellu sut y bydden nhw'n cydymffurfio ag ef. Os byddai'r penderfyniad yn cael ei gymryd i beidio â chymryd camau, roeddwn yn gofyn am esboniad dros beidio â chymryd camau. Ches i ddim ymateb yn uniongyrchol gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac felly


anfonais Hysbysiad Ysgrifenedig yn gofyn am ragor o wybodaeth i'm darbwyllo y byddai buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo drwy gydol y broses o ryddhau pobl hŷn o ysbytai Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Ers hynny, mae ymateb Cyngor Dinas a Sir Abertawe i Argymhelliad 5 ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi dod i law. Mae fy nhîm a mi wedi asesu'r ymateb yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan. Rwy'n fodlon ar yr ymateb i Argymhelliad 5 ac mae'n dda gen i nodi mai mesurau a fydd yn sicrhau bod enghreifftiau o fethu â thrin pobl hŷn ag urddas a pharch yn mynd yn fwyfwy prin ac yn peidio â chael eu goddef yw'r ffocws.

Gan fod eich ymateb wedi bodloni fy nghais am wybodaeth a fydd yn fy narbwyllo y cydymffurfir ag Argymhelliad 5, mae'r Adolygiad swyddogol fel y mae'n ymwneud â Chyngor Dinas a Sir Abertawe bellach ar ben. Bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod fy argymhellion i a chynllun gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn troi'n realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru. Rydyn ni'n gobeithio cyfarfod â chi yng ngwanwyn 2012 i drafod y cynnydd sydd wedi'i wneud a chyfleoedd i rannu'r arferion gorau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn, cysylltwch ag Anna Buchanan ar 02920 445034 neu anna.buchanan@olderpeoplewales.com.

Yn gywir,



Ruth Marks
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru